BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS GWYNEDD A MÔN
ANGLESEY AND GWYNEDD PUBLIC SERVICES BOARD

DYDD MAWRTH, 20 MEHEFIN 2017

COFNODION

Presennol	
Enw	**Sefydliad**
Gwynne Jones	Cyngor Sir Ynys Môn
Cyng. Llinos Medi	Cyngor Sir Ynys Môn
Dilwyn Williams	Cyngor Gwynedd
Cyng. Dyfrig Siencyn	Cyngor Gwynedd
Ffion Johnstone	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Sioned Rees	Llywodraeth Cymru
Simon Smith	Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Sian Williams	Cyfoeth Naturiol Cymru
Nigel Harrison	Heddlu Gogledd Cymru
Sian Purcell	Medrwn Môn
Emyr Williams	Parc Cenedlaethol Eryri
Siobhan Adams	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Jerry Hunter	Prifysgol Bangor

Ymddiheuriadau	
Morag Olsen	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Bethan Russell-Williams	Mantell Gwynedd

Yn Mynychu	
Llio Johnson	Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn
Janet Roberts	Cyngor Gwynedd
Shan Morris	Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Elizabeth Woodcock	Myfyriwr PhD (Arsylwi)

1. Croeso

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Reolwr Rhaglen y Bwrdd, Llio Johnson. Esboniodd fod angen ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd ar gyfer y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar y cyd.

Cafodd Ffion Johnstone ei henwebu ar gyfer y swydd Cadeirydd gan Simon Smith ac roedd cytundeb unfrydol. Enwebwyd y Cyng. Dyfrig Siencyn fel Is-gadeirydd gan Gwynne Jones. Cytunwyd yn unfrydol.

Croesawyd Ffion Johnstone I'r gadair ar gyfer gweddill y cyfarfod.

2. Cofnodion cyfarfod 13 Ebrill 2017

Cyflwynwyd y cofnodion a derbyniwyd hwy fel cofnod cywir o'r cyfarfod ar y 13 Ebrill.

3. Gweithredoedd

Nodwyd nad yw Morag Olsen, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi mynychu'r Bwrdd ers 3 cyfarfod - gofynnwyd a'i hyw hyn yn adlewyrchu ymroddiad y Bwrdd Iechyd I Fwrdd Gwasanaethau cyhoeddus Gwynedd a Môn?

Cytunodd y Cadeirydd fynd a'r neges yn ôl i'r Bwrdd Iechyd a gofyn am gynrychiolaeth gyson yn y dyfodol. Cytunodd Sioned Rees i ategu hynny trwy broses lywodraethu'r Bwrdd Iechyd.

4. Pum diwrnod mewn ystafell

Cafwyd cyflwyniad am y gwaith yma gan Ffion Johnstone. Cytunwyd rhannu'r sleidiau gyda'r cofnodion.

Esboniodd Ffion Johnstone y broses hyd yma:

Yn 2016 cynhaliwyd y cyfarfodydd 'Pum diwrnod mewn ystafell' lle y cytunwyd ar raglen gweithredu ar gyfer y tair ardal o fewn y Bwrdd Iechyd.

Mae'r broses wedi symud ymlaen yn y Gorllewin gyda thri diwrnod arall wedi eu cynnal i symud hyn ymlaen.

Bu i 30 o staff ar draws BCUHB, Cyngor Gwynedd, Cyngor Sir Ynys Môn, trydydd sector a'r sector annibynnol gyfarfod i'r diben o gasglu data a chynnal archwiliad o'r data hynny. Trefnwyd ymweliadau hefyd er mwyn cael dealltwriaeth glir o sut mae'r system bresennol yn gweithio.

Sefydlwyd egwyddorion ar gyfer y camau nesaf ac mae'r gwaith yn parhau - yn y maes oedolion ar hyn o bryd ond gyda gobaith o ledaenu i feysydd fel argyfwng yn fuan.

Derbyniwyd nifer o sylwadau gan aelodau'r Bwrdd:

Nododd Nigel Harrison pa mor bwysig yw'r llif claf o fewn yr ysbytai i bartneriaid eraill hefyd. Yn aml iawn mae amser heddweision yn cael ei gymryd trwy ddisgwyl i gleifion symud o fewn ysbyty.

Diolchodd Simon Smith am y cyflwyniad ac yn falch o weld ffrwyth i'r gwaith a gychwynnwyd mis Rhagfyr a bod hyn yn symud ymlaen.

Nododd y Cyng. Dyfrig Siencyn fod llawer o'r gwaith yn swnio fel synnwyr cyffredin ond mi all werthfawrogi pa mor galed yw torri trwy haen ar ôl haen o fiwrocratiaeth.

Cytunodd Ffion Johnstone ei fod wedi bod yn broses hir ac anodd ond eu bod bellach wedi cael cymeradwyaeth o'r ddogfennaeth oedd angen a hynny ar ôl mynd trwy nifer o bwyllgorau. Wedi llwyddo ar ôl dyfalbarhad.

Cafwyd sylw gan Dilwyn Williams mae yn debyg mai hyn yw un o'r pethau pwysicaf sydd wedi cael ei drafod yma yn y BGC. Mae'r broses wedi anghofio am yr elfen o Swyddogion Iechyd a Swyddogion Gofal Cymdeithasol yn cyd-weithio a hytrach wedi edrych ar y siwrne trwy lygaid y dinesydd.

Mae angen lledaenu'r gweithredu yma i mewn i feysydd eraill lle y gall y BGC ddylanwadu, e.e. Iechyd Meddwl. Mae yn bwysig hefyd fod hyn yn y Cynllun Llesiant Lleol, nid ydym eisiau ei golli o fewn gweithredu rhanbarthol.

Holodd Sioned Rees beth oedd amserlen hyn a beth oedd y mesurau llwyddiant. Cytunwyd fod hyn yn anodd oherwydd y mesurau sydd yn bodoli ar hyn y bryd. Cadarnhaodd Sioned y bydd Papur Gwyn ar y maes gofal yn fuan a bydd hyn yn cynnwys edrych ar y mesuryddion.

Cytunodd Gwynne Jones gyda Dilwyn Williams o ran pwysigrwydd y gwaith yma - mae yn waith cyffrous iawn ac angen cael sylw pellach gan y Bwrdd. Mae angen sicrhau bod y 'senior decision makers' yn gweld hyn yn waith hanfodol a bod eu rôl nhw yn allweddol i lwyddiant hyn. Mae angen newid diwylliant o fewn yr ysbytai ond hefyd sefydliadau eraill sydd yn cyd-weithio gydag Iechyd.

Nodwyd Sian Purcell ei fod wedi bod yn ddiddorol iawn bod yn rhan o'r gwaith. Roedd rhywun yn gallu gweld agwedd swyddogion yn newid wrth fynd trwy'r broses.

Gofynnodd y Cyng. Llinos Medi sut mae hefyd newid disgwyliadau'r claf a'u teuluoedd - hyn yn aml sydd yn anodd ac yn gyrru gofal. Cytunodd Ffion Johnstone ei fod yn anodd ac mae angen cyd-weithio agos i newid hyn. Cafwyd sylw hefyd fod angen sicrhau bod y claf a'r teulu yn cael y wybodaeth gyflawn am eu gofal.

Nododd Dilwyn Williams fod hefyd angen sicrhau nad yw gweithwyr proffesiynol yn rhoi'r negeseuon anghywir i'r cleifion. Er enghraifft, yn aml iawn erbyn i'r gweithiwr cymdeithasol gyrraedd y claf yn yr ysbyty mae gweithwyr iechyd wedi dweud mai i gartref preswyl fydd angen mynd, er nad yw hyn yn gywir ym mhob achos, mae hyn yn gallu creu dibyniaeth.

Esboniodd Jerry Hunter sut mae'r Brifysgol wedi gweddnewid sut y maent yn cyfathrebu gyda myfyrwyr a bellach yn cynnwys myfyrwyr ar ddechrau unrhyw newid ac mae eu perthynas wedi gwella yn fawr, bellach mae'r Brifysgol ymhlith y 15 uchaf ym Mhrydain am foddhad myfyrwyr.

Nododd Emyr Williams bwysigrwydd cofio am yr angen am waith ataliol i stopio pobl gyrraedd yr ysbyty yn lle cyntaf – mae yn debyg y bydd hyn yn codi yn y Cynllun Llesiant.

5. Lles Amgylcheddol

Ymddiheurodd Sian Williams nad oedd cyflwyniad ar gael ar gyfer y cyfarfod.

Esboniodd fod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi bod yn edrych ar sut y mae yn gallu cyfrannu at waith y BGC. Mae trafodaethau wedi eu cynnal yn y byrddau eraill am waith newid hinsawdd a lleihau allbynnau carbon. Nifer o bethau eraill wedi codi megis lleihau'r nifer o boteli dŵr o fewn sefydliadau cyhoeddus.

Ym Mwrdd Wrexham mae trafodaethau wedi bod ynglŷn â Gweithleoedd Iach - oes angen hyn yn rhanbarthol?

Cytunwyd y gellir trafod hyn ymhellach yn y gweithdai sydd yn cael eu trefnu ar ran y Bwrdd dros yr Haf - bu i Sioned Rees atgoffa'r aelodau fod angen i'r cynllun ymateb i'r Asesiad Llesiant.

6. Grid Cenedlaethol

Cafwyd cais gan Gwynne Jones i'r BGC gefnogi Cyngor Sir Ynys Môn gyda llythyr i'r Grid Cenedlaethol yn gofyn iddynt ystyried Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol wrth gynllunio'r ail linell o beilonau dros yr ynys.

Cefndir y cais yw bod Cyngor Ynys Môn wedi ysgrifennu at Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i ofyn am gyngor o beth yw oblygiadau'r ddeddf ar gyfer cynllun o'r fath. Mae'r Grid yn pwyso yn erbyn y ddeddf gan nad yw yn gorff cyhoeddus.

Y cyngor cyfreithiol mae Cyngor Ynys Môn wedi ei dderbyn yw y dylai'r Grid baratoi gwybodaeth o sut y maent yn ymateb i'r Ddeddf.

Mae cwmni Horizon wedi derbyn egwyddor y Ddeddf ond nid yw'r Grid Cenedlaethol.

Gofynnodd Dilwyn Williams pwy fydd yn rhoi caniatâd i'r cynllun ac oni ddylai'r sefydliad yna gysidro'r Ddeddf? A ddylai'r BGC lythyru'r sefydliad yna er mwyn sicrhau eu bod yn cadw i'r ddeddf?

Cadarnhawyd mai trwy'r broses DCO fydd y caniatâd yn digwydd ac fe fydd hyn yn wir am ganiatâd ar gyfer y Pwerdy hefyd, cais Horizon. Mae hyn yn broses tu allan i ddeddfwriaeth Cymru.

Nodwyd fod y Cyngor yn siomedig gydag ymateb y Comisiynydd i gais Môn - er nad yw'r Grid yn sefydliad cyhoeddus fe ddylid gofyn iddynt ystyried y ddeddf o ran egwyddor.

Cytunwyd y byddai'r BGC yn ysgrifennu i'r Grid Cenedlaethol yn gofyn iddynt gymryd egwyddorion y ddeddf i ystyriaeth gyda chopi i'r Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.

7. Prif Negeseuon yr Asesiad Llesiant

Cafwyd papur yn amlinellu camau nesaf o ran y prif negeseuon. Bydd gweithdai yn cael eu trefnu dros yr haf i drafod y negeseuon ac i roi cynigion ymlaen i'r BGC am y gweithredu yn y meysydd hynny.

Cytunwyd ei fod yn bwysig cydnabod beth sydd yn digwydd yn y meysydd yn barod.

Cwestiynwyd yr angen i'r gweithredu fod ar y cyd. Bydd angen trafodaeth am hyn a chysidro pwy fydd y partneriaid ar gyfer pob gweithred.

8. Fframwaith ymgysylltu

Trafodwyd y papur yn gofyn i'r BGC sefydlu Is-grŵp Ymgysylltu er mwyn cychwyn y gwaith o geisio ymgysylltu ar y cyd gyda chymunedau yng Ngwynedd a Môn.

Cytunwyd fod angen hyn gan fod y neges gan y cymunedau yn glir eu bod wedi cael digon o drafod gyda gwahanol sefydliadau. Mae angen ffordd o rannu negeseuon sydd yn codi o fewn ymgysylltu'r gwahanol sefydliadau a gweithio tuag at ymgysylltu ar y cyd.

Enwebwyd Sian Purcell I fod yr aelod cysylltiedig â'r Is-grŵp yma ac i Gadeirio grŵp. Cytunwyd yn unfrydol.

9. Gohebiaeth

(i) Gwahoddiad i'r digwyddiad sydd yn cael ei drefnu gan Swyddfa'r Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yng Nghaerdydd ar y 17 o Orffennaf.

Cytunwyd ysgrifennu i swyddfa'r comisiynydd yn gofyn iddynt gysidro cynnal digwyddiad yn y Gogledd- mae yn anodd cyfiawnhau'r gost o drafeilio ac aros yng Nghaerdydd ar gyfer cyfarfod 2 awr yn unig.

(ii) Nodwyd cynnwys y llythyr gan Carl Sargeant a Mark Drakeford ynglŷn â sicrhau bod y trydydd sector yn rhan o waith y BGC.

10. Unrhyw fater arall

(i) Mae crynodeb o amcanion llesiant pob corff cyhoeddus wedi ei dderbyn gan y Llywodraeth - cytunwyd rhannu'r hwn gyda'r aelodau.